# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Cofnodion o gyfarfod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, gynhaliwyd ddydd Llun 18fed Mehefin 2007 ym Mhencadlys y Cyngor Sir, Llangefni. Dechreuodd y cyfarfod am 10.45 y bore.

**Yn bresennol:**

| Y Cynghorydd | Yn cynrychioli |
|---|---|
| T Roberts (Cadeirydd) | Cyngor Gwynedd |
| E C George (Is-Gadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| P C Evans YH | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| W E Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| J A MacLennan | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| R D Peacock | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| G C Evans | Cyngor Sir Ddinbych |
| S Frobisher | Cyngor Sir Ddinbych |
| J A Smith | Cyngor Sir Ddinbych |
| G Williams | Cyngor Sir Ddinbych |
| D Barratt | Cyngor Sir y Fflint |
| R G Hampson | Cyngor Sir y Fflint |
| J Ovens | Cyngor Sir y Fflint |
| C Shone | Cyngor Sir y Fflint |
| M Griffith | Cyngor Gwynedd |
| E Morgan Jones | Cyngor Gwynedd |
| G O Williams | Cyngor Gwynedd |
| G M Craddock | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| J A Roberts | Cyngor Sir Ynys Môn |
| W T Roberts | Cyngor Sir Ynys Môn |

**Hefyd yn bresennol:**

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); I R Miller (Clerc a Swyddog Monitro i'r Awdurdod); K W Finch (Trysorydd i'r Awdurdod); C Hanks (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cynnal y Gwasanaethau); P S Claydon (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cyflwyno'r Gwasanaethau); D Docx (Prif Swyddog Cynorthwyol, Cyllid a Chaffael); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); W A Murphy (Uwch Reolwr Gweithrediadau); K Hughes (Uwch Reolwr Diogelwch Tân); D G Roberts (Rheolwr Prosiect y System Dyletswydd Rhan Amser); S Forrest (Cyfrifydd, Adran y Trysorydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) a Rh Evans (Swyddog Cyswllt Aelodau).

**RHAN I**

**1) Ymddiheuriadau**

| Y Cynghorydd | Yn cynrychioli |
|---|---|
| J M Vaughan | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| D Clayton | Cyngor Sir y Fflint |
| E F Evans | Cyngor Sir y Fflint |
| N S Colbourne | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| W J Chorlton | Cyngor Sir Ynys Môn |
| M Williams | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| | |
| C Enness | Dirprwy Brif Swyddog Tân |

**2) Rhybudd o Faterion Brys**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim eitemau wedi eu cyflwyno iddo ef na'r Clerc i'w hystyried.

Cyn cychwyn y busnes, fe ddywedodd y Cadeirydd ei bod hi wedi bod yn amser trist i'r Awdurdod a'r Gwasanaeth yn y misoedd diwethaf gyda marwolaeth y Cynghorydd Sue Jones a'r Diffoddwr Tân Michael Benson. Fe dalodd y Cadeirydd deyrnged i'r Cynghorydd Jones a'r Diffoddwr Tân Benson. Roedd y Cynghorydd Jones, aelod o'r Awdurdod ers ei sefydlu yn 1996, wedi bod yn aelod gwerthfawr ac uchel ei pharch o'r Awdurdod a'r Panel Gweithredol. Roedd yn dod o deulu Gwasanaeth Tân neilltuol iawn ac yn ystyried gwasanaethu ar yr Awdurdod fel anrhydedd mawr. Roedd hyn yn amlwg yn ei hangerdd tuag at unrhyw beth oedd yn gysylltiedig â'r Gwasanaeth.

Bu farw'r Diffoddwr Tân Michael Benson, diffoddwr tân rhan amser yng Ngorsaf Dân Treffynnon, yn sydyn ar 5ed Mehefin 2007 yn 30 oed. Roedd y Diffoddwr Tân Benson wedi ymuno â'r Gwasanaeth fel diffoddwr tân rhan amser yn 2000 a gwasanaethodd fel Rheolwr Criw dros dro yng Ngorsaf Dân Treffynnon am gyfnod ar ddiwedd 2006. Dywedwyd wrth Aelodau fod y Gwasanaeth wedi bod yn rhoi cefnogaeth i'w deulu ac y byddant yn parhau i wneud hynny am beth amser.

Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi ysgrifennu at y ddau deulu ar ran yr Awdurdod yn mynegi cydymdeimlad dwysaf aelodau a swyddogion. Fe roddodd y Cadeirydd glod a diolch i bersonél y Gwasanaeth am y cymorth yr oeddynt wedi ei roi i'r ddau deulu a'r modd urddasol yr oeddynt wedi ymddwyn yn y ddau angladd, yr oedd ef wedi eu mynychu.

Safodd aelodau a swyddogion mewn distawrwydd fel arwydd o barch i'r Cynghorydd Jones a'r Diffoddwr Tân Benson.

## 3) Cyhoeddiadau'r Cadeirydd

- Rhoddodd groeso i'r Cynghorydd John MacLennan i'w gyfarfod cyntaf yn dilyn ei benodiad fel cynrychiolydd Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy yn lle'r diweddar Gynghorydd S C Jones.
- Cyflwynodd ddymuniadau gorau'r Awdurdod i Mr Dai Roberts, Rheolwr Prosiect y System Dyletswydd Rhan Amser, oedd yn ymddeol o'r Gwasanaeth ar 20fed Gorffennaf wedi cwblhau 30 mlynedd o wasanaeth. Cyn dymuno'n dda iddo ef a'i deulu, rhoddodd hanes cryno o yrfa Mr Roberts a diolchodd iddo am ei wasanaeth. Aeth ymlaen i egluro byddai staff ac aelodau yn gweld eisiau personoliaeth gynnes ac agosatrwydd Mr Roberts.
- Estynnwyd dymuniadau da i Mr Gareth Watson, Rheolwr Cyfathrebiadau Corfforaethol y Gwasanaeth, oedd yn gadael y Gwasanaeth ar ddechrau Gorffennaf i gymryd ei swydd newydd fel Rheolwr Cyfathrebiadau Corfforaethol gyda Chyngor Sir Ddinbych. Diolchodd i Mr Watson am ei waith gan ddymuno'n dda iddo yn ei swydd newydd.
- Llongyfarchwyd y Cynghorydd E Morgan Jones ar gael ei ethol yn Is-Gadeirydd Cyngor Gwynedd ar gyfer 2007/08.
- Cafodd yr Aelodau wybod, yn dilyn penderfyniad y Panel Gweithredol ar 21ain Mai 2007, o'r 1af Mehefin ymlaen, ni fyddai rhaid cyflwyno derbynebau tanwydd TAW gyda cheisiadau am dreuliau milltiroedd. Byddai llythyr yn cael ei anfon yn y cyfamser i aelodau yn eu hysbysu o'r penderfyniad.
- Dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd pwyllgorau yn y dyfodol: byddai Gweithgor yr Hyrwyddwyr Diogelwch Cymunedol a Chefnogi a Datblygu Aelodau yn cynnal ei gyfarfod nesaf ddydd Gwener 6ed Gorffennaf am 10 y bore. Roedd cyfarfod nesaf y Panel Gweithredol wedi ei drefnu ar gyfer 10.30 y bore ddydd Mercher 25ain Gorffennaf 2007. Byddai'r ddau gyfarfod yn cael eu cynnal ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Llanelwy. Rhestrwyd dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd yr Awdurdod Tân ac Achub yn ystod 2007/08 o dan eitem busnes 21 ar agenda'r cyfarfod presennol.
- Estynnwyd dymuniadau gorau i nifer o aelodau oedd wedi, neu ar fin dathlu penblwyddi arbennig.

## 4) Cofnodion

Cyflwynwyd y cofnodion canlynol:

i. Cyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub gynhaliwyd 19eg Mawrth 2007

***<u>Penderfynwyd:</u>*** - ***cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r trafodion.***

Cyflwynwyd y cofnodion canlynol er gwybodaeth:

ii. Cyfarfod y Pwyllgor Safonau gynhaliwyd ar 28ain Chwefror 2007
iii. Cyfarfod y Panel Gweithredol gynhaliwyd 5ed Mawrth 2007

## 5) Materion yn Codi

Roedd y materion hyn yn codi o'r cofnodion a gyflwynwyd:

**Cyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub 19eg Mawrth 2007:**
**Tudalen 3, Eitem 3 – Cyhoeddiadau:** Diolchwyd i swyddogion am drefnu ymweliad ar gyfer yr aelodau â Choleg y Gwasanaeth Tân ym Moreton-in-Marsh. Roedd yr aelodau hynny oedd wedi mynychu yn teimlo fod yr ymweliad wedi bod yn werthfawr, er, roeddynt yn teimlo byddai treulio mwy o amser yn y Coleg i weld yr holl gyfleusterau oedd ar gael wedi bod yn fuddiol. Gwnaethant gais i ymweliadau yn y dyfodol gael eu cynnal dros gyfnod o ddeuddydd. Ymddiheurodd y Cynghorydd C Shone nad oedd wedi gallu cymryd rhan yn y digwyddiad.

**Tudalen 7, Eitem 10, Cynigion i'w cynnwys yng Nghynllun Lleihau Risg yr Awdurdod ar gyfer 2008/09:** Fe gynghorodd y Prif Swyddog Tân yr Awdurdod nad oedd y 'drafodaeth anffurfiol' gyfeiriwyd ati yn ail ran y penderfyniad wedi digwydd eto. Y rheswm dros hyn oedd, yn dilyn etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol, roedd newid wedi bod yng nghylch gwaith portffolios Cabinet Llywodraeth y Cynulliad yn ogystal ag yn neiliaid y portffolios. Nid oedd Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio yn bodoli mwyach a roedd y gwasanaethau tân ac achub yn gorwedd o fewn cyfrifoldebau'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Chyflwyno Gwasanaethau Cyhoeddus, Andrew Davies AC. Roedd Swyddogion a'r Cadeirydd wedi cysylltu â'r Gweinidog newydd gyda golwg o drafod cynigion yr Awdurdod i'w cynnwys yn y Cynllun Gweithredu Lleihau Risg Drafft ar gyfer 2008/09 ond, hyd yn hyn, nid oedd y drafodaeth wedi digwydd ac nid oedd dyddiad wedi cael ei bennu i drafod y mater.

**Cyfarfod y Panel Gweithredol, 5ed Mawrth 2007:** mewn ymateb i sylw gan y Cynghorydd G C Evans os oedd cynnal cyfarfod o'r Panel oedd yn parhau am 25 munud yn unig ac yn cynnwys nifer gyfyngedig o eitemau busnes ar yr agenda yn gost effeithiol, fe gynghorodd y Clerc, er fod y cyfarfod wedi parhau am 25 munud yn unig, roedd yr un aelodau a swyddogion, yn union o flaen y cyfarfod dan sylw, wedi bod yn cyfarfod fel Gweithgor y Cynllun Lleihau Risg. Roedd y cyfarfod hwnnw wedi parhau am dros ddwy awr.

## 6) Adroddiad y Cadeirydd

Fe gyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad (ddosbarthwyd yn y cyfarfod) oedd yn rhoi diweddariad byr i aelodau ar y cyfarfodydd a'r digwyddiadau yr oedd wedi eu mynychu yn rhinwedd ei swydd fel y Cadeirydd, ac yn ei absenoldeb gan yr Is-Gadeirydd, ers y cyfarfod diwethaf ar 19eg Mawrth 2007. Hysbysodd y

Cadeirydd yr aelodau i gytundeb gael ei tharo ar godiad cyflog o 2.4% i ddiffoddwyr tân yn ystod cyfarfod y Cyd-Gyngor Cenedlaethol i Frigadau Tân Awdurdodau Lleol, yr oedd ef wedi ei fynychu ar 15fed Mehefin 2007. Roedd y cytundeb hwn, fyddai'n gweld y codiad cyflog yn dod i rym o Orffennaf 2007, hefyd yn gweld cyflwyniad o brotocol diwygiedig rhwng cyrff cynrychiadol staff a'r cyflogwyr. Roedd gwaith yn mynd rhagddo gyda'r bwriad o gyflwyno cytundeb cyflog mwy cynaliadwy o 2008 ymlaen.

***<u>Penderfynwyd</u>:- nodi'r wybodaeth oedd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad.***

**7) Lleoli Peiriannau Deuddiben**

Cyn cychwyn yr eitem yma o fusnes, fe ddywedodd y Cadeirydd wrth yr aelodau, yn dilyn derbyn cyngor, na fyddai'n arwain ar yr eitem benodol hon. Perodd hyn i'r Is-Gadeirydd gwestiynu os, pe y cyfyd sefyllfa debyg yn y dyfodol,, a fyddai'n well i aelodau geisio caniatâd i siarad gan y Pwyllgor Safonau.

Yna, fe gyflwynodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyflwyno'r Gwasanaethau) ei adroddiad oedd yn cyflwyno gwybodaeth bellach i aelodau mewn cysylltiad â'r argymhellion oedd wedi eu cynnwys yng Nghynllun Gweithredu Trydydd Blwyddyn y Cynllun Rheoli Risg Integredig (IRMP) ar gyfer 2006/07 ar leoliadau y peiriannau deuddiben. Aeth ymlaen i fanylu'r wybodaeth oedd wedi ei gynnwys yn ei adroddiad a'r hyn oedd wedi eu cymryd i ystyriaeth wrth ffurfio'r cynigion gwreiddiol i adleoli'r peiriannau. Er fod yr Awdurdod wedi penderfynu derbyn yr argymhelliad mewn perthynas ag adleoli peiriannau deuddiben pan oedd yn cymeradwyo cynllun gweithredu trydydd blwyddyn yr IRMP 2006/07, yn dilyn derbyn llythyr gan Gyngor Tref Abermaw – er fod y llythyr wedi cael ei dderbyn mwy nag 8 mis ar ôl diwedd y cyfnod ymgynghori estynedig – fe ofynnodd aelodau yng nghyfarfod yr Awdurdod ym mis Rhagfyr 2006 i'r mater gael ystyriaeth pellach. O ganlyniad i'r penderfyniad hwn, gohiriwyd y broses adleoli nes i adroddiad pellach gael ei gyflwyno i'r Awdurdod. Cynghorwyd aelodau gan y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyflwyno'r Gwasanaethau) fod y wybodaeth y gwnaethpwyd y penderfyniad gwreiddiol arno wedi ei astudio eto. Yn ystod yr adolygiad yma, nid oedd gwybodaeth newydd wedi dod i'r wyneb a fyddai'n newid yr argymhelliad gwreiddiol mewn unrhyw ffordd. Cynghorwyd yr aelodau fod yr adroddiad a'i atodiadau yn manylu'r opsiynau amrywiol gafodd eu hystyried ac yn cynnwys gwybodaeth ar yr ardaloedd daearyddol y gellid eu cyrraedd o fewn 30 munud gan beiriant deuddiben wedi ei leoli yn Abermaw ac yn Nolgellau.

Fe nododd yr Is-Gadeirydd, yn ei farn ef, fod pryder ar draws Gogledd Cymru ynglŷn â'r cynigion o gwmpas adleoli'r peiriannau deuddiben a chymryd y peiriant cefnogi oddi ar rai gorsafoedd. Roedd o'r farn y byddai'n fuddiol cyflwyno'r deg peiriant deuddiben yn unol â'r argymhelliad gwreiddiol ond i beidio â thynnu'r peiriannau cefnogi oddi ar y gorsafoedd yn syth. Yn ei farn ef, byddai'n well os y gallai'r ddau beiriant weithredu ochr yn ochr â'i gilydd nes y gellid gwerthuso effeithiolrwydd y ddarpariaeth newydd yn llawn. Cynghorwyd

aelodau gan y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyflwyno'r Gwasanaethau) fod nifer o'r ail beiriannau yn dod at ddiwedd eu bywyd gweithiol ac na fyddai'n gost effeithiol eu cadw ac y byddai hyn yn gyfystyr â defnydd aneffeithiol o adnoddau. Fe leisiodd y Cynghorydd E Morgan Jones ei bryder ynglŷn â'r cynnig i adleoli'r peiriant deuddiben o Abermaw i Ddolgellau. Roedd o'r farn, yn ystod misoedd prysuraf yr haf, y byddai bron yn amhosibl, oherwydd y traffig trwm, i gyrraedd rhai ardaloedd o Dde Gwynedd o Ddolgellau o fewn 30 munud. Fe nododd y Cynghorydd J A MacLennan fod bron pob ardal yng Ngogledd Cymru yn profi cynnydd yn y boblogaeth a thraffig yn ystod misoedd yr haf. Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd, fe gadarnhaodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyflwyno'r Gwasanaethau) fod yr holl dystiolaeth yr oedd yr argymhelliad cyntaf wedi ei seilio arno, wedi cael ei astudio eto, ac, yn seiliedig ar yr angen i amddiffyn bywyd a'r amgylchedd, y casgliad oedd mai'r lleoliad optimwm ar gyfer y peiriant deuddiben oedd fel yr argymhellwyd yn flaenorol.

Fe gynghorydd y Clerc yr aelodau yn erbyn gwrthdroi penderfyniad oedd wedi cael ei gymryd yn seiliedig ar dystiolaeth, ac heb ei weithredu a'i brofi am effeithiolrwydd eto. Roedd y Cynghorydd J A Roberts o'r farn y dylai'r mater fod wedi cael ei drafod mewn cyfarfod o'r Panel Gweithredol cyn ei gyflwyno i'r Awdurdod llawn er mwyn i'r Panel ffurfio argymhelliad yn seiliedig ar ddadansoddiad manwl o'r wybodaeth oedd ar gael.

Fe dderbyniodd y Prif Swyddog Tân fod y penderfyniad gwreiddiol yn creu anawsterau i rai aelodau, ond atgoffodd yr aelodau fod y penderfyniad hwn wedi mynd trwy'r broses IRMP ac wedi ei adnabod fel y dull gorau oedd ar gael o wella'r ddarpariaeth o wasanaeth ar draws Gogledd Cymru. Aeth yn ei flaen i egluro y byddai gweithrediad y penderfyniad gwreiddiol yn gweld cyflwyno 10 o gerbydau gwell i'r Gwasanaeth nad oedd yn bodoli ar hyn o bryd. Ond, gyda'r peiriannau yma ar fin cael eu cyflwyno i wasanaethu, roedd yn amser bod yn glir o'u lleoliad.

Fe rybuddiodd y Trysorydd yr aelodau, os byddent yn penderfynu cadw'r peiriant presennol yn Abermaw ac yn prynu peiriant deuddiben ychwanegol i'w leoli yn Nolgellau, byddai rhaid iddo gwestiynu cyfreithlondeb y penderfyniad. Y rheswm dros hyn oedd fod rhaid i'r Awdurdod adnabod y ffynhonnell ar gyfer ariannu adnoddau cyfalaf ac nad oedd darpariaeth wedi cael ei wneud o fewn y rhaglen gyfalaf bresennol i ariannu'r fath bryniant.

Roedd y Cynghorwyr S Frobisher a J A MacLennan o'r farn y dylai'r Awdurdod benderfynu ar y mater yn y cyfarfod presennol. Roedd gweithrediad yr argymhelliad gwreiddiol wedi cael ei ohirio am 12 mis eisoes, ac roedd nawr yn amser gwneud penderfyniad terfynol ar y mater. Atgoffwyd aelodau gan y Clerc, os byddai'r mater yn cael ei gyfeirio i'r Panel Gweithredol am ystyriaeth bellach, yna ni fyddai'r Awdurdod llawn yn gallu cymeradwyo'r argymhelliad terfynol nes ei gyfarfod yn Hydref 2007. Fe gynigiodd y Cynghorydd G M Craddock a'r Is-Gadeirydd y dylid anfon 9 o'r 10 peiriant allan yn unol â'r

argymhelliad gwreiddiol gyda'r peiriant deuddiben arall yn aros yn Abermaw gan aros am ystyriaeth bellach ar y mater gan y Panel Gweithredol yn ei gyfarfod ar 25ain Gorffennaf 2007. Eiliwyd y cynnig a:

***Penderfynwyd*: - fod –**

***i. naw o'r peiriannau deuddiben yn cael eu hanfon allan a'u lleoli yn unol â'r argymhelliad yn Nghynllun Gweithredu y Cynllun Rheoli Risg Integredig 2006/07 gyda'r degfed peiriant yn aros yn Abermaw gan aros am ystyriaeth bellach am leoliad y degfed peiriant gan y Panel Gweithredol yn ei gyfarfod ar 25ain Gorffennaf 2007;***
***ii. adroddiad cynhwysfawr yn cael ei baratoi a'i gyflwyno i'r Panel Gweithredol, yn ei gyfarfod ar 25ain Gorffennaf 2007, yn manylu'r opsiynau ac yn cynnwys y data perthnasol fyddai'n galluogi'r Panel i ffurfio argymhelliad hyddysg mewn perthynas â'r lleoliad optimwm i'r peiriant deuddiben fydd yn gwasanaethu ardal De Gwynedd; ac***
***iii. yn dilyn ystyriaeth o'r wybodaeth gyflwynir iddo yn y cyfarfod uchod, fod y Panel Gweithredol yn ffurfio argymhelliad, i'w gyflwyno i'r Awdurdod Tân ac Achub yn ei gyfarfod ar 15fed Hydref 2007 am gymeradwyaeth, mewn perthynas â lleoliad y peiriant deuddiben ar gyfer De Gwynedd.***

**8) Cynllun Lleihau Risg – Cynllun Gweithredu Drafft 2008/09**

Ar ddechau'r eitem fusnes yma, fe ddatganodd y Cynghorydd J A Roberts ddiddordeb fel perthynas i Swyddog Tân oedd yn gweithio ar y System Dyletswydd Hyblyg ac oedd yn darparu gwasanaeth Swyddog Gweithredol wrth gefn. Er fod y Cynghorydd Roberts wedi derbyn cyngor gan y Clerc fod modd iddo gymryd rhan yn yr holl drafodaethau ar yr eitem hon o fusnes, ar wahân i'r mater o'r ddarpariaeth o swyddogion gweithredol wrth gefn, ni chymrodd y Cynghorydd Roberts ran yn y drafodaeth o gwbl ac ataliodd rhag pleidleisio ar y mater hwn.

Fe gyflwynodd y Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael) ei hadroddiad a Chynllun Gweithredu drafft y Cynllun Lleihau Risg 2008/09 (RRP) (a ddosbarthwyd o flaen llaw) i'r aelodau, yn ceisio eu cymeradwyaeth i gychwyn yr ymarferiad ymgynghoriad cyhoeddus ar ei gynnwys. Fe eglurodd i'r aelodau fod y Cynllun Gweithredu drafft, oedd yn ganlyniad trafodaethau Gweithgor yr RRP dros y misoedd diwethaf, yn cyflwyno gweledigaeth o sut allai'r Awdurdod wella'r gwasanaeth yr oedd yn ei ddarparu i drigolion Gogledd Cymru yn 2008/09 ac hyd at 2010/11. Fe gynghorodd y Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael) yr aelodau fod y prif gynnig, i roi pwyslais newydd ac ychwanegol ar atal tanau drwy gynyddu'r nifer o archwiliadau diogelwch tân yn y cartref yn sylweddol, yn gofyn am gynydd o £750,000 yng nghyllidebau 2008/09 a 2009/10. Erbyn 2010/11, byddai'r gost yn cael ei hariannu gan yr ail a'r trydydd cynnig a restrwyd, sef i gyflwyno polisi cadarnach i ostwng y nifer o alwadau diangen o larymau mwg awtomatig a gwneud defnydd mwy effeithiol o amser personél. Fel a nodwyd yn gynharach, nid oedd wedi bod yn bosib hyd yma ymgynghori

â Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth y Cynulliad, ond y gwneid pob ymdrech i drafod y cynigion gydag ef cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

***<u>Penderfynwyd</u>: - nodi cynnwys yr adroddiad a chymeradwyo Cynllun Gweithredu y Cynllun Lleihau'r Risg drafft 2008/09 at ddiben ymgynghoriad cyhoeddus.***

**9) Cyflwyniad ar yr Asesiad Risg ar y Cyd**

Fe groesawodd y Cadeirydd Mr Rob Powell, Rheolwr Perthynas, a Mr John Weston, Rheolwr Prosiect Perfformiad, gydag Swyddfa Archwilio Cymru i'r cyfarfod i gyflwyno darganfyddiadau'r Asesiad Risg ar y Cyd ymgymerwyd ag ef fel rhan o Raglen Cymru ar Gyfer Gwella (WPI). Roedd copi o fatrics yr Asesiad wedi cael ei ddosbarthu i bob aelod cyn y cyfarfod er gwybodaeth. Gyda chymorth cyflwyniad PowerPoint, rhoddodd Mr Powell friff i'r aelodau ar gefndir yr Asesiad Risg ar y Cyd a phrosesau yr WPI; yr egwyddorion allweddol oedd yn atgyfnerthu, a chydrannau allweddol y WPI –Tân; y risgiau oedd yn gynhenid gyda'r Asesiad a'r mesurau oedd wedi cael eu hadnabod gyda golwg ar liniaru'r risgiau hynny. Fel rhan o'r broses Asesu Risg ar y Cyd, roedd yr Awdurdod wedi derbyn archwiliad gan Dîm Adolygu Cymheiriaid, yr oedd ei aelodaeth yn cynnwys personél o wasanaethau tân ac achub Cymreig eraill, a gan yr WAO gyda golwg o sicrhau ei fod yn rheoli ei berfformiad yn effeithiol ac wedi ymrwymo i gyflawni gwelliannau parhaus. Roedd rhan o'r asesiad yn golygu archwiliad o RRP a Chynllun Gwella yr Awdurdod. Cynghorwyd Aelodau fod y Tîm Adolygu Cymheiriaid wedi derbyn y dasg o asesu cadernid gweithredol y Gwasanaeth mewn ardaloedd megis dadansoddiad risg; atal ac amddiffyn; parodrwydd gweithredol; rheoli galwadau a meistroli digwyddiad, ac ymateb brys. Ar y llaw arall, roedd y WAO wedi ymgymryd â'r asesiad o berfformiad yr Awdurdod mewn perthynas ag ardaloedd anweithredol o'i waith megis arweinyddiaeth; llywodraethiad a rheoli; gallu, rheoli a gwella perfformiad, ac e-dân ac achub.

Yna, eglurodd Mr Powell fod y matrics gyflwynwyd i aelodau yn rhestru darganfyddiadau'r Asesiad Risg ar y Cyd, statws y risgiau oedd wedi eu priodoli i'r ardaloedd gwahanol ac, yn dilyn trafodaeth gydag uwch swyddogion, y mesurau a rheoliadau roir yn eu lle gan y Gwasanaeth i liniaru'r risgiau yma. Cyn amlygu'r risgiau gweithredol ac anweithredol allweddol a adnabuwyd yn ystod yr asesiad, fe ddiolchodd Mr Powell i'r Prif Swyddog Tân a'i staff am eu cydweithrediad a'u cefnogaeth tra'n ymgymryd â'r Asesiad. Ymysg y risgiau gweithredol yr oedd yr asesiad wedi amlygu yr oedd yr: angen i ddarganfyddiadau Grŵp Gorchwyl y Prif Swyddog Tân gael eu bwydo i mewn i hysbysu Strategaeth Diogelwch Cymunedol; angen i wella systemau i sicrhau fod data critigol risg cyfredol ar gael i safleoedd digwyddiadau; a'r angen i symud ymlaen gydag argaeledd y model FSEC er mwyn sicrhau fod y cysyniad o risg yn cael ei ymgorffori ar draws y Gwasanaeth. Mewn ymateb i'r pwyntiau yma, fe gynghorodd y Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael) yr aelodau

fod y risgiau yma'n derbyn sylw drwy fesurau megis sefydlu Gweithgor yr Hyrwyddwyr, gyda golwg i symud materion diogelwch cymunedol yn eu blaenau; byddai'r prosiect Firelink cenedlaethol yn helpu i wella argaeledd data i safleoedd digwyddiadau ac roedd y model FESC yn cael ei wella'n barhaol.

Ynglŷn â'r darganfyddiadau mewn ardaloedd anweithredol, fe gynghorodd Mr Powell: fod angen gwaith ychwanegol mewn perthynas â rheoli perfformiad; roedd angen i'r Awdurdod sicrhau fod cynaladwyedd wedi ei ymgorffori'n llawn ar draws pob agwedd o'i fusnes; byddai rhaid mabwysiadu a gweithredu Asesiad Effaith Cydraddoldeb; roedd angen gwella systemau TG y Gwasanaeth i'w alluogi i fod yn fwy effeithiol ar gyfer gofynion y gwasanaeth tân ac achub; roedd angen rheoli pwysau ariannol yr Awdurdod yn effeithiol er mwyn cynnal ei safle ariannol, a'r angen i wella swyddogaethau craffu ac ymgysylltu gydag aelodau. Roedd yr olaf yn fater cyffredinol ar draws y tri awdurdod tân ac achub Cymreig. Wrth ymateb i'r materion hyn, fe gynghorodd y Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael) fod gwaith yn mynd rhagddo yn barod gyda golwg o wella rheoli perfformiad; roedd cynnydd yn cael ei wneud i wella technoleg gwybodaeth a chyfathrebu; byddai'r gwaith mewn perthynas â gosod cyllideb y flwyddyn nesaf yn cychwyn yn fuan ac roedd adroddiad i'w drafod yn hwyrach ar agenda'r cyfarfod presennol yn delio gydag ymgysylltiad ag aelodau a materion cefnogi a datblygu aelodau.

Cyn diweddu ei adroddiad, fe gynghorodd Mr Powell yr aelodau y byddai'r WAO yn dychwelyd i adolygu ei ddarganfyddiadau yn ystod yr hydref. Fe gynghorodd hefyd, gan mai ef oedd Rheolwr Perthynas y tri awdurdod tân ac achub Cymreig, roedd mewn safle ddelfrydol i weithredu fel sianel rhyngddynt i rannu arferion da.

Wrth ymateb i gwestiynau, fe eglurodd Mr Powell fod y gwaith a wnaed yn yr Asesiad yma'n cyd-fynd, yn hytrach nag yn dyblygu'r gwaith oedd wedi cael ei gwblhau eisoes fel rhan o'r prosesau archwilio RRP a'r Cynllun Gwella. Roedd Llywodraeth Cynulliad Cymru, hyd yn hyn, wedi ariannu costau'r gwaith yma, ond nawr, byddai'r costau yn cael eu cynnwys yng nghyfanswm ffi y WAO fyddai'n daladwy gan yr Awdurdod. Mewn ymateb i ymholiad gan y Cynghorydd C Shone ar y costau gwirioneddol, fe gynghorodd Mr Powell nad oedd ganddo'r ffigyrau i'w cyfathrebu i'r Cynghorydd Shone yn y cyfarfod ond fe wnaeth addewid i anfon y wybodaeth ato. Gwnaeth y Cynghorydd M Griffith ymholiad am farnau'r WAO ar sut oedd yr Awdurdod yn craffu ar benderfyniadau, a'i syniadau ar sut i wella'r swyddogaeth graffu o fewn yr Awdurdod, gan ei bod hi o'r farn nad oedd yr Awdurdod yn craffu penderfyniadau yn ddigonol. Ymateb Mr Powell oedd mai ei obaith oedd y byddai'r WAO yn rhannu profiadau ac arbenigedd gyda'r Awdurdod yr oedd wedi ennill o weithio gydag awdurdodau lleol yn y maes hwn.

***<u>Penderfynwyd</u>: - nodi'r wybodaeth gyflwynwyd.***

Hanner dydd: gohiriwyd y cyfarfod yn y man yma. Gadawodd y Prif Swyddog Tân a'r Cynghorydd Ron Hampson y cyfarfod. Ailgynullwyd y cyfarfod am 12.10 y prynhawn.

**10) Y Rheoliadau Iawndal Dewisol**

Fe gyflwynodd y Trysorydd ei adroddiad ef a'r Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael) ar y cyd (ddosbarthwyd o flaen llaw) oedd yn ceisio cymeradwyaeth yr Awdurdod i'r datganiadau polisi diwygiedig arfaethedig mewn perthynas â'r ymarferiad o bwerau dewisol mewn perthynas ag iawndal am derfynu cyflogaeth yn gynnar mewn achosion gweithwyr sydd yn, neu'n gymwys i ymuno â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Fe eglurodd, fel canlyniad i Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Oedran) 2006 a'r Rheoliadau (Terfynu Cyflogaeth yn Gynnar) (Iawndal Dewisol) (Cymru a Lloegr) 2006, roedd angen i'r Awdurdod adolygu ei bolisi'n ymwneud â'r ymarfer o'i bwerau dewisol mewn perthynas ag ehangu gwasanaeth pensiynadwy personél. Aeth y Trysorydd ymlaen i fanylu cynnwys yr adroddiad yn cynnwys polisïau cyfredol; y darpariaethau dan y Rheoliadau newydd; materion yn ymwneud ag effaith y Rheoliadau ar daliadau diswyddo; materion effeithlonrwydd busnes; cyd benodiadau; hawliadau budd-daliadau pensiwn; ychwanegiadau (augmentation) a'r pryniant o wasanaeth pensiynadwy ychwanegol. Sicrhaodd y Trysorydd yr Aelodau fod ystyriaethau ariannol a phersonél weld eu cymryd i ystyriaeth wrth ddrafftio'r adroddiad a'r dogfennau polisi diwygiedig. Fe bwysleisiodd hefyd mai ychydig iawn o awdurdodau oedd yn ffafrio ychwanegu at fudd-daliadau pensiwn gan fod iddo'r potensial o fod yn ddrud iawn. Fe gynghorodd y Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael) yr aelodau, er fod ymgynghoriad ar y cynigion wedi digwydd gyda rhai cyrff cynrychiadol ar gyfer staff, ni chafwyd trafodaethau gydag UNISON eto, ac felly dyna'r rheswm dros eiriad yr argymhelliad cyntaf. Mewn ymateb i gwestiynau gan aelodau, fe gynghorodd y Trysorydd fod ymddeoliadau afiechyd yn sgîl anafiadau tra ar ddyletswydd yn dod o dan ddarpariaethau statudol ar wahân a fod y meini prawf ar gyfer pennu taliadau iawndal er budd effeithlonrwydd gwasanaeth, osodwyd ym mharagraff 13 o'r adroddiad, yr un fath ag a gyfathrebwyd i lywodraeth leol yn un o Fwletinau Cynghorol Cyflogwyr Llywodraeth Leol.

***<u>Penderfynwyd</u>:- fod-***

- ***i.*** ***y Polisi Ymddeol Cynnar yr Awdurdod yn cael ei ddiwygio i ymgorffori'r datganiadau polisi fel â osodwyd yn Atodiad A o'r adroddiad; yn amodol ar derfynu'r ymgynghoriad gyda chyrff cynrychioladol y staff; a***
- ***ii.*** ***y Gwasanaeth yn caniatáu prynu gwasanaeth pensiynadwy ychwanegol o unrhyw daliad iawndal dewisol sydd yn uwch nag unrhyw swm taliad statudol am ddileu swydd, yn ddibynnol ar yr unigolyn dan sylw yn gwneud y dewis hynny yn ysgrifenedig o leiaf fis cyn eu dyddiad ymadael.***

**11) Polisi Ymddeoliad Hyblyg**

Fe gyflwynodd y Trysorydd ei adroddiad ef a'r Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael) (ddosbarthwyd o flaen llaw) yn hysbysu'r aelodau o'r newid yn y Rheoliadau oedd yn effeithio pa bryd oedd budd-daliadau pensiwn yn gallu cael eu talu i staff cefnogi a'r ystafell reoli sy'n aelodau o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Roedd yr adroddiad hefyd yn ceisio cymeradwyaeth yr Awdurdod i ddatganiad polisi arfaethedig ar ymarfer cyfeiriad yr Awdurdod mewn perthynas â'r mater hwn. Cynghorwyd yr aelodau gan y Trysorydd fod yr opsiwn ymddeoliad hyblyg, a fanylid arno yn yr adroddiad, oedd wedi ei fabwysiadu gan nifer o sefydliadau ac a oedd yn ennill poblogrwydd o fewn y sector gyhoeddus, yn fenter oedd wedi helpu'r cyflogwr a'r gweithiwr i baratoi ar gyfer y dyfodol. Byddai mabwysiadu'r cysyniad yma yn helpu unigolion oedd yn dymuno cymryd mantais o'r opsiwn ymddeol hyblyg i addasu ar gyfer ymddeoliad tra byddai'r cyflogwr yn elwa o gyfnod trosglwyddo rhwng y gweithiwr oedd yn ymddeol a'r person oedd yn cymryd ei le.

***Penderfynwyd:**- yn ddibynnol ar gwblhau'r ymgynghoriad gyda'r cyrff cynrychiadol, cymeradwyo'r Datganiad o Bolisi mewn perthynas ag Ymddeoliad Hyblyg fel a osodwyd yn Atodiad A i'r adroddiad.*

**12) Diweddariad Gweithgor yr Hyrwyddwyr**

Fe gyflwynodd y Swyddog Cyswllt Aelodau ei hadroddiad hi a'r Is-Gadeirydd ar y cŷd ynghyd â'r atodiadau (a ddosbarthwyd o flaen llaw) oedd yn hysbysu'r aelodau am waith Gweithgor yr Hyrwyddwyr Diogelwch Cymunedol a Chynorthwyo a Datblygu Aelodau. Roedd yr adroddiad hefyd yn ceisio cymeradwyaeth yr aelodau i'r Disgrifiadau o Rolau a Manylion y Person ym Mreinlen Cymru ar gyfer Cynorthwyo a Datblygu Aelodau Awdurdodau Tân ac Achub a chael yr Awdurdod i'w mabwysiadu. Rhoddodd ddiweddariad i'r aelodau ar gynnwys yr adroddiad ac am drafodaethau oedd wedi cymryd lle, a'r awgrymiadau oedd wedi codi yn ystod dau gyfarfod cyntaf y Gweithgor. Fel mater o lywodraethu corfforaethol da, roedd y Gweithgor wedi penderfynu y byddai'n cyflwyno adroddiad gwybodaeth chwarterol i'r Awdurdod Tân ac Achub. Roedd yr Is-Gadeirydd yn pwysleisio mai nod y Freinlen, oedd bellach yn symud ymlaen ar draws pob awdurdod lleol, oedd i wella a chryfhau ymgysylltiad aelodau. Roedd hyn nawr yn bwysicach nag erioed gan fod swm gynyddol o swyddogaethau'r Awdurdod wedi eu dirprwyo i'r Panel Gweithredol. Gyda hyn mewn golwg, roedd y Gweithgor wedi gwneud cais i holl aelodau'r Awdurdod gael eu gwahodd, yn chwarterol, i fynychu cyfarfodydd o'u Tîm Diogelwch Sirol. Byddai'r cyfarfodydd yma yn rhoi cyfle delfrydol i ryngweithio gyda phersonél y Gwasanaeth ac i ddysgu am y mentrau a'r gwaith oedd ar fynd yn eu hardaloedd penodol eu hunain. Byddant hefyd yn rhoi cyfle i bersonél elwa o wybodaeth aelodau a'u cysylltiadau o fewn eu cymunedau ac awdurdodau.

Er mwyn i'r Awdurdod allu symud ymlaen gyda'i waith mewn perthynas â'r Freinlen Datblygu a Chefnogi Aelodau, cynghorwyd aelodau fod yr Awdurdod angen cymeradwyo a mabwysiadu disgrifiadau swyddi a manylebau person ar gyfer aelodau'r Awdurdod, Cadeirydd/Is-Gadeirydd yr Awdurdod a Chadeirydd/Is-Gadeirydd Pwyllgor. Roedd y disgrifiadau swyddi drafft a manylebau person oedd i'w gweld yn Atodiad B i'r adroddiad wedi eu cymeradwyo eisoes fel y dogfennau drafft i awdurdodau tân ac achub Cymru i seilio eu disgrifiadau swyddi a manylebau person eu hunain arnynt. Yr unig ddiwygiad roedd y Gweithgor wedi ei argymell oedd i newid y gwerthoedd gwreiddiol ym mhob swydd ddisgrifiad – sef gwerthoedd bywyd cyhoeddus – am rai y Gwasanaeth Tân ac Achub. Roedd y Cynghorydd P C Evans yn teimlo fod geiriad yr ail bwynt yn nisgrifiad rôl y Cadeirydd/Is-Gadeirydd – "i fod yn anwleidyddol...' yn anghyson gyda'r pwynt cyntaf ym manyleb person y Cadeirydd/Is-Gadeirydd – "darparu arweinyddiaeth wleidyddol..." Er ei fod yn derbyn barn y Clerc, fod 'gwleidyddol' yn y cyd-destun hwn yn cael ei ddefnyddio yn ei ddiffiniad ehangach, roedd yn cynnig fod y gair 'anwleidyddol' yn cael ei newid a bod gair mwy addas, megis diduedd.

***Penderfynwyd:-***

*i.* ***nodi cynnwys yr adroddiad a'r cynnydd hyd yn hyn mewn perthynas â Diogelwch Cymunedol a Datblygu a Chefnogi Aelodau;***
*ii.* ***cadarnhau penodiad y Cynghorydd E C George fel yr Hyrwyddwr Cefnogi a Datblygu Aelodau a bod chwech aelod y Gweithgor yn cael eu penodi fel Hyrwyddwyr Diogelwch Cymunedol ar gyfer eu hardaloedd awdurdodau unedol eu hunain; ac***
*iii.* ***yn ddibynnol ar ddiwygiad i'r ail bwynt yn Swydd Ddisgrifiad y Cadeirydd/Is-Gadeirydd yr Awdurdod i ddarllen "diduedd" yn hytrach nag "anwleidyddol" ac unrhyw gyfeiriadau eraill sy'n gwrthdaro i gael eu diwygio, i gymeradwyo mabwysiadu Disgrifiadau Swyddi a Manylebau Person Aelodau Awdurdod Tân ac Achub drafft fel Disgrifiadau Swyddi a Manylebau Person Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.***

## 13) Cwynion a Llythyrau o Werthfawrogiad

Fe gyflwynodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cefnogi'r Gwasanaethau) ei adroddiad (ddosbarthwyd o flaen llaw) oedd yn hysbysu ac yn diweddaru'r aelodau ar y nifer a natur y cwynion a llythyrau o werthfawrogiad dderbyniwyd gan y cyhoedd yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Fe eglurodd, er fod nifer y cwynion roedd y Gwasanaeth wedi dderbyn yn y flwyddyn ddiwethaf yn dangos ychydig o gynnydd ar y flwyddyn flaenorol, roedd yn falch iawn fod y nifer o llythyrau o werthfawrogiad yn llawer uwch. Cafwyd cynnydd sylweddol yn y nifer o negeseuon o werthfawrogiad dderbyniwyd mewn cymhariaeth â'r flwyddyn flaenorol ac roedd yn braf nodi fod nifer o'r negeseuon yma yn gysylltiedig â digwyddiadau lle'r oedd cydweithio wedi digwydd. Aeth y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cefnogi'r Gwasanaethau) ymlaen i fanylu'r

categorïau gwahanol o gwynion dderbyniwyd a'r mesurau gymerwyd i'w datrys.

***<u>Penderfynwyd</u>: - nodi'r nifer o gwynion a mynegiannau o werthfawrogiad dderbyniwyd.***

**14) Datganiad o Gyfrifon Drafft 2006/07**

Fe gyflwynodd y Trysorydd ei adroddiad a Datganid o Gyfrifon drafft yr Awdurdod ar gyfer 2006/07 (a ddosbarthwyd o flaen llaw) i aelodau ac, yn unol â darpariaethau Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005, gofynnodd am eu cymeradwyaeth o'r cyfrifon â gyflwynwyd. Cyn tynnu sylw'r aelodau at nifer o bwyntiau yn y cyfrifon, diolchodd i Gyfrifydd y Gwasanaeth, y Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael) a'r Rheolwr Cyllid am eu cymorth wrth lunio'r cyfrifon. Hysbyswyd yr Aelodau y byddent yn trafod adroddiad ar ddiwygiad i'r Rheolau Sefydlog yn ddiweddarach ar yr agenda fusnes, oedd, os y byddai'n cael ei gymeradwyo, yn gofyn i ystyriaeth gael ei roi i ddirprwyo pŵer ychwanegol i'r Panel Gweithredol mewn perthynas â chymeradwyo'r fersiwn archwiliedig derfynol o Ddatganiad Cyfrifon Blynyddol yr Awdurdod. Y rheswm dros hyn oedd y gofyniad newydd o dan Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005, i bob awdurdod cyhoeddus o 2006/07 ymlaen i gymeradwyo eu cyfrifon archwiliedig erbyn 30ain Medi yn y flwyddyn ariannol ganlynol. Byddai'r aelodau wedi cael cyfle i godi unrhyw bryderon ar y cyfrifon drafft yn ystod cyfarfod Mehefin. Yna, aeth y Trysorydd yn ei flaen i egluro fod, am y tro cyntaf yn 2006/07, 'Datganiad o Reolaeth Fewnol' wedi cael ei chynnwys yn y ddogfen Datganiad o Gyfrifon. Roedd y datganiad yma, oedd angen llofnod y Cadeirydd, y Prif Swyddog Tân, y Clerc a'r Trysorydd yn rhoi sicrwydd i'r aelodau fod holl agweddau o fusnes yr Awdurdod a'i drafodion ariannol wedi cael eu trafod mewn modd cyfreithlon a chywir. Mewn ymateb i gwestiynau gan aelodau, fe gynghorodd cyfrifydd y Gwasanaeth mai'r rheswm am y nifer uchel o drafodion banc heb eu clirio mewn cymhariaeth â'r flwyddyn flaenorol oedd oherwydd amseriad 'taliad y sieciau' mewn perthynas â diwedd y flwyddyn ariannol. Fe gynghorodd y Cyfrifydd hefyd mai'r rheswm pam fod cost hysbysebu recriwtio 2006/07 yn is na 2005/06 oedd oherwydd fod llai o uwch swyddi gwag wedi codi o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol; roedd hysbysebu am bersonél mewn cylchgronau arbenigol yn llawer drytach na hysbysebu yn y wasg leol.

***<u>Penderfynwyd:</u>- cymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol oedd yn diweddu 31ain Mawrth 2007.***

**15) Gweithgaredd Rheoli'r Trysorlys a Dangosyddion Darbodus Gwirioneddol 2006/07**

Fe gyflwynodd y Trysorydd ei adroddiad trysorlys blynyddol i'r aelodau (a ddosbarthwyd o flaen llaw). Fe eglurodd fod yr adroddiad yma, oedd yn cynnwys gweithgaredd y trysorlys ar gyfer 2006/2007, er yn dechnegol a

chymhleth iawn, yn ofyniad o dan weithdrefnau adrodd yr Awdurdod. Yn unol â'r Cod Darbodus, roedd yr adroddiad hefyd yn manylu'r Dangosyddion Darbodus ar gyfer yr un cyfnod.

***Penderfynwyd:*** **-**

i. ***cymeradwyo'r Dangosyddion Darbodus 2006-2007 gwirioneddol; a***
ii. ***nodi'r adroddiad ar weithgareddau Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2006/2007***

**16) Diwygiad Arfaethedig i'r Rheolau Sefydlog**

Fe gyflwynodd y Clerc ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) oedd yn ceisio cymeradwyaeth yr Awdurdod i ddiwygiad i'w Reolau Sefydlog mewn perthynas â dyddiad cyfarfod busnes yr hydref gyda golwg o gynnwys anghenion y broses Cynllunio i Leihau Risg. Yn unol â Rheolau Sefydlog yr Awdurdod, roedd y diwygiad, oedd wedi cael ei gynnig yng nghyfarfod diwethaf yr Awdurdod, wedi ei ohirio am drafodaeth nes y cyfarfod presennol. Aeth yn ei flaen i egluro os fyddai'r diwygiad, i newid dyddiad cyfarfod hydref yr Awdurdod yn cael ei gymeradwyo, byddai angen i aelodau ystyried dirprwyaeth dilynol o bŵer i'r Panel Gweithredol, i'w alluogi i ymdrin â chymeradwyo Datganiad o Gyfrifon archwiliedig yr Awdurdod yn flynyddol. Roedd y rheswm dros y ddirprwyaeth wedi cael ei egluro dan eitem fusnes 14.

***Penderfynwyd:*** **-**

i. ***cymeradwyo'r diwygiad canlynol i Orchymyn Sefydlog 4(2): "4(2) Cynhelir cyfarfodydd yr awdurdod ym Mehefin, sef Cyfarfod Blynyddol yr Awdurdod, a Hydref, Rhagfyr a Mawrth. Bydd y cyfarfodydd hyn yn cael eu cynnal ar y trydydd dydd Llun yn y mis oni bai fod y Cadeirydd, mewn ymgynghoriad â'r Clerc a'r Prif Swyddog Tân, yn pennu'n wahanol "; ac***
ii. ***o ganlyniad bydd pwerau'r Panel Gweithredol gael eu hymestyn i gynnwys y ddirprwyaeth ganlynol: "2.6 Yn ychwanegol, bydd y Panel Gweithredol, ar gyfer pob blwyddyn ariannol yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005, yn cymeradwyo Datganiad o Gyfrifon Blynyddol yr Awdurdod a chydnabod yn ffurfiol y Llythyr o Gynrychiolaeth anfonir i'r Archwilydd Allanol."***

**17) Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau) (Cymru) 2007**

Fe gyflwynodd y Clerc ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) oedd yn hysbysu'r aelodau am ddarpariaethau y Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag awdurdodau tân ac achub. Manylodd ar gynnwys ei adroddiad a chynghorodd y dylai'r Awdurdod, maes o law, roi ystyriaeth i dalu Lwfansau Cyfetholedig i aelodau annibynnol ei Bwyllgor Safonau. Fe eglurodd y Clerc fod y darpariaethau yn y Rheoliadau yn

gofyn am rai newidiadau i 'Gynllun ar gyfer Talu Lwfansau i Aelodau' yr Awdurdod ac felly, roedd yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth i ddiwygiadau dilynol i'r Cynllun. Rhestrwyd y diwygiadau hyn yn yr atodiad i'r adroddiad.

***<u>Penderfynwyd:</u> -***

i. ***nodi deddfiad y Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau) (Cymru) 2007 a'r darpariaethau o'r Rheoliadau mewn perthynas ag awdurdodau tân;***
ii. ***y bydd yr Awdurdod, maes o law, yn rhoi ystyriaeth i ddyfarnu lwfans cyfetholedig, a'r lefel o daliadau, i aelodau annibynnol o'i Bwyllgor Safonau; a***
iii. ***cymeradwyo'r newidiadau dilynol i'r 'Cynllun ar gyfer Talu Lwfansau i Aelodau' fel a fanylwyd yn yr atodiad i'r adroddiad.***

**18) Penodiadau Statudol a Chytundebau Lefel Gwasanaeth**

Yn absenoldeb y Prif Swyddog Tân, fe gyflwynodd y Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael) ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) gyda'r bwriad o geisio caniatâd yr aelodau i gomisiynau adolygiad o'r penodiadau statudol ar gyfer Trysorydd a Swyddog Monitro a'r Cytundebau Lefel Gwasanaeth eraill ddeuai i ben ar 31ain Mawrth 2008.

***<u>Penderfynwyd:</u> -***

i. ***gofyn i'r Panel Gweithredol gynnal adolygiad o'r Penodiadau Statudol a'r Cytundebau Lefel Gwasanaeth, a***
ii. ***chyflwyno argymhellion i gyfarfod yr Awdurdod ym mis Rhagfyr ar y Penodiadau Statudol a'r trefniadau ar gyfer gwasanaethau ariannol, cyfreithiol a phensiynau i ddod i rym o Ebrill 2008 ymlaen, gan gynnwys amodau a hyd y penodiadau a'r trefniadau hynny.***

**19) Er Gwybodaeth**

Fe gyflwynodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cefnogi'r Gwasanaethau) y rhifyn diweddaraf o 'Er Gwybodaeth' i'r aelodau. Llongyfarchodd yr Adran Cyfathrebiadau Corfforaethol ar y cyhoeddiad ac hefyd y rhai hynny a dderbyniodd Wobrwyon Cymunedol y Gwasanaeth, yr oedd adroddiad amdanynt yn y rhifyn hwn.

***<u>Penderfynwyd:</u>- derbyn y cyhoeddiad***

**20) Materion Brys**

Dim.

## 21) Dyddiadau cyfarfodydd yr Awdurdod 2007/08

Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r aelodau am ddyddiadau cyfarfodydd busnes yr Awdurdod Tân ac Achub ar gyfer blwyddyn ddinesig 2007/08: Dydd Llun 15fed Hydref 2007, Dydd Llun 17eg Rhagfyr 2007, Dydd Llun 17eg Mawrth 2008 a Dydd Llun 16eg Mehefin 2008. Byddai'r olaf hefyd yn ddyddiad y Cyfarfod Blynyddol. Byddai'n rhoi gwybod i aelodau o leoliadau'r cyfarfodydd unwaith iddynt gael eu trefnu.

Yna, rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r aelodau yr argymhellid i'r eitem oedd yn weddill ar yr agenda gael ei thrafod heb y cyhoedd na'r Wasg yn bresennol.

***Penderfynwyd*: - yn unol ag Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972, fod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod yn ystod ystyried yr eitem ganlynol o fusnes oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig, fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 1, 8, 9 a 10 o Ran I Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn cael ei datgelu iddynt.**

**RHAN II**

## 22) Cytundeb Cerbydau Newydd

Fe gyflwynodd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cefnogi'r Gwasanaethau) ei adroddiad (a ddosbarthwyd o flaen llaw) oedd yn rhoi diweddariad i aelodau ar faterion oedd yn gysylltiedig â'r Cytundeb Cerbydau Newydd cyfredol. Fe eglurodd fod yr adroddiad yn cael ei gyflwyno iddynt er gwybodaeth ac ers iddo gael ei ysgrifennu, derbyniwyd cadarnhad gan y cwmni ei fod yn barod i dderbyn yr amodau oedd yn atodiad yr adroddiad. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau fod yr Awdurdod yn disgwyl derbyn ei beiriannau blwyddyn 1 erbyn 16eg Awst 2007. Fe'u hysbyswyd hefyd fod Gwasanaethau Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru wedi cytuno i symud ymlaen gyda'r cytundeb cyfan, hyd at, ac yn cynnwys y cyfnod tair mlynedd llawn.

***Penderfynwyd*: - nodi cynnwys yr adroddiad ac y byddai gwybodaeth bellach yn cael ei ddarparu os y byddai newid arwyddocaol yn sefyllfa ariannol neu berfformiad y cwmni.**

Daeth y cyfarfod i ben am 12.55 y prynhawn.